



IECHYD RHYNGWLADOL – DYSGU, PARTNERIAETHAU AC YMARFER





Croeso

4 Penawdau

Dod i adnabod ein haelodau: Laura Rich

Dinasyddiaeth a Phartneriaethau Byd-eang: Ymrwymiad GIG Cymru i Iechyd Rhyngwladol

*Laura Holt,
Uwch Swyddog Iechyd byd-eang, Polisi ac
Iechyd Rhyngwladol, i Canolfan Gydwethredol
Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer
Iechyd a Llesiant*

Ysgogi datrysiadau i wahaniaethau annheg mewn iechyd yng Nghymru a thu hwnt drwy Fenter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru

*Zuwaira Hashim, Cydlynnydd Iechyd Rhyngwladol,
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Daniela Stewart, Swyddog Datblygu Tystiolaeth
Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru
James Allen, Gwyddonydd Iechyd Cyhoeddus,
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Jo Peden, Meddyg Ymgynghorol mewn Iechyd y
Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Lauren Couzens, Prif Ymarferydd Iechyd y
Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru*

Ymarfer ac ymchwil yng Nghymru yn darparu Cefnogaeth Ryngwladol i Rieni

Yr Athro Judy Hutchings, Prifysgol Bangor

Cymru ar flaen y gad o ran gwneud penderfyniadau iachach drwy Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEI)

*Kathryn Ashton, Prif Swyddog Datblygu Asesu'r
Effaith ar Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Liz Green, Liz Green, Ymgynghorydd Iechyd y
Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru*

Pan Mae Llysiau yn Cwrdd â Feirysau: Rôl Artistiaid mewn Cyfathrebu Iechyd Byd-eang

*MHD MALEK AL DALI,
Graddedig MSc Iechyd y Cyhoedd – Prifysgol
Bangor*

Mewnwelediadau Iechyd Rhyngwladol: Dysgu o Arfer Byd-eang i Gryfhau Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru

*Zuwaira Hashim,
Cydlynnydd Iechyd Rhyngwladol, Iechyd
Cyhoeddus Cymru
Mariana Dyakova,
Pennaeth Arweinydd Economi Iechyd a Llesiant
Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Keira Charteris,
Uwch Swyddog Datblygu Tystiolaeth
Ryngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru*

*Daniela Stewart,
Swyddog Datblygu Tystiolaeth Rhyngwladol,
Iechyd Cyhoeddus Cymru*

Iechyd y Cyhoedd fel Gyrrwr Economiâu Llesiant yng Nghymru ac yn Fyd-eang

*Mariana Dyakova,
Pennaeth Arweinydd Economi Iechyd a Llesiant
Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Anna Stielke,
Uwch Swyddog Tystiolaeth a Pholisi, Iechyd
Cyhoeddus Cymru*

20 Trwy glep a si

Beth sy'n Gwneud i Gydweithio Weithio? Mewnwelediadau ac Offer ar gyfer Partneriaethau Effeithiol

*Emma Girvan,
Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Uned
Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Iechyd
Cyhoeddus Cymru
Rebecca Evans,
Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Uned
Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Iechyd
Cyhoeddus Cymru*

24 Fideos

26 Newyddion & Adnoddau

28 Rhifyn Nesaf

Penawdau



Dod i adnabod ein haelodau: Laura Rich

Rydym yn dod i adnabod ein haelodau a hoffem helpu ein haelodau i ddod i adnabod ein gilydd. Os hoffech ymddangos mewn rhifyn yn y dyfodol, cwblhewch y [ffurflen](#) hon.

Y mis hwn rydyn ni'n cwrdd Laura Rich, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd yn yr Is-adran Gwella Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dywedwch wrthym ychydig amdano chi'ch hun a'ch gwaith presennol

Helo, Laura ydw i, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd yn yr Is-adran Gwella Iechyd. Rwy'n gweithio yn y Tîm Tybaco, Fêps, a Chynhyrchion Nicotin Caethiwus. Bydd fy ngwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu, cyflawni a gwerthuso gweithgareddau atal sylfaenol a chychwynnol. Bydd hyn yn mabwysiadu dull seiliedig ar leoliad wrth feddwl am waith atal gyda babanod, plant a phobl ifanc, megis mewn Lleoliadau Addysg Bellach neu Addysg Uwch, Mannau a Lleoedd Awyr Agored a Chartrefi Di-fwg.

Beth wnaeth eich ysgogi i ymuno â'r rhwydwaith hwn?

Rydw i wedi bod yn aelod ers sbel bellach ac rydw i wrth fy modd â'r amrywiaeth o wybodaeth a rhannu gwybodaeth rydych chi'n ei gael gan y Rhwydwaith. Cefais fy ysgogi yn y bôn gan FOMO (Ofn Colli Allan)!

Beth yw'r manteision i chi o fod yn aelod o'r rhwydwaith hwn?

Mae'r gweminarau dysgu rheolaidd, y banc pynciau ar y wefan a'r cylchlythyr yn rhoi gwybodaeth, newyddion a chyfleoedd dysgu cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i mi sydd ar gael yn hawdd.

Pa un peth a hoffech chi ei rannu ag aelodau eraill y rhwydwaith?

Mae wedi cymryd amser hir i mi dderbyn na allwch chi wybod popeth, ac nad oes disgwyl i chi fod yn ffynhonnell wybodaeth ar bob polisi, arfer a darn o dystiolaeth yn ymwneud

ag Iechyd y Cyhoedd. Fodd bynnag, gallwch gysylltu ag eraill ar draws y system iechyd y cyhoedd i helpu i lunio'ch gwybodaeth, ac i feithrin hyder a gallu. Felly, peidiwch â bod ofn gofyn y cwestiwn 'gwirion' hwnnw, dywedwch 'shwmae' wrth bobl newydd rydych chi'n eu cyfarfod, a gwnewch amser i gysylltu cymaint â phosibl (yn rhithwir neu wyneb yn wyneb).

Ydych chi'n fodlon i'ch cyfeiriad e-bost gael ei rannu yn y bwletin electronig?

Ydw - laura.rich4@wales.nhs.uk



Polisi, Ymchwil, Ymarfer

Dinasyddiaeth a Phartneriaethau Byd-eang: Ymrwymiad GIG Cymru i Iechyd Rhyngwladol

Laura Holt,

Uwch Swyddog Iechyd byd-eang, Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, i Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

Mae'r [Ganolfan Ryngwladol Cydlynw Iechyd \(IHCC\)](#) yn rhan o Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru — sef un o Ganolfannau Cydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant sy'n eirioli, yn galluogi ac yn ysgogi gweithredu i lunio polisi ac ymarfer. Mae'r IHCC yn cysylltu GIG Cymru â rhwydweithiau, tystiolaeth ac arbenigedd byd-eang, gan gefnogi ymrwymiad Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Ein gwaith

Gan arwain ar [Strategaeth Iechyd Ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023–2035](#), mae'r IHCC yn gweithio ar draws byrddau iechyd y GIG, Llywodraeth Cymru, y byd academiaidd, y trydydd sector a sefydliadau rhyngwladol. Rydym yn hwyluso rhwydweithio amlsector drwy'r Grŵp Gweithgarwech Iechyd Rhyngwladol, y Fforwm Iechyd Rhyngwladol lle mae cydweithwyr yn rhannu'r hyn a gaiff ei ddysgu o bob rhan o'r byd, [Cylchlythyr Iechyd Rhyngwladol](#) rheolaidd, a chyfnewidfaedd dysgu strwythuredig gyda sefydliadau rhyngwladol.

Pam mae Dinasyddiaeth Fyd-eang yn bwysig i staff GIG Cymru

Un o'n meysydd gwaith craidd yw meithrin dinasyddiaeth fyd-eang, helpu pobl yn y GIG i ddeall sut mae digwyddiadau byd-eang yn llunio blaenoriaethau lleol, a rhannu enghreifftiau o sut i ymgysylltu â phartneriaid rhyngwladol mewn modd parchus a chydfuddiannol.

Mewn cydweithrediad â [Cymru Global](#), mae ein gweithdai a'n [modiwlau e-ddysgu](#) yn archwilio themâu gan gynnwys cymorth a datblygiad, iechyd sy'n seiliedig ar hawliau, globaleiddio, heddwch,

gwrthdaro ac iechyd a thegwch rhywedd. Nid pynciau haniaethol yw'r rhain; nhw yw'r cyd-destun y tu ôl i'r cleifion a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Mae gwybod sut i feithrin partneriaethau sy'n wirioneddol deg yn rhan ganolog o'r gwaith hwn. Mae pecyn cymorth y [Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol](#) yn rhoi canllawiau ymarferol ar lywio deinameg pŵer, tra bod tîm a phartneriaid [menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru \(WHESRI\)](#) wedi mynd â hyn ymhellach gyda [Cryfhau Iechyd gyda Phartneriaethau Rhyngwladol Teg: Dysgu Allweddol ac Arferion Gorau](#) — sef adroddiad sy'n archwilio sut y gall cydweithredu rhyngwladol wella canlyniadau iechyd yng Nghymru a thu hwnt. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn glir: mae'r partneriaethau mwyaf effeithiol yn deg, yn fuddiol i'r ddwy ochr, ac wedi'u seilio ar ddysgu ar y cyd, llywodraethu cryf, cynaliadwyedd, a chyfranogiad cymunedol gwirioneddol.

Cael Dylanwad: Yr hyn mae'r Cyfranogwyr yn ei Ddweud

Mae adborth o'n gweithdai yn dangos yn gyson fod staff yn gadael sesiynau yn teimlo'n fwy brwdfrydig, wedi'u hysbrydoli, ac yn barod i ystyried eu rôl mewn cyd-destun byd-eang.

Cymhelliant:

“Rwy'n cael fy ysbrydoli i

chwilio am gyfleoedd newydd i gydweithio'n rhyngwladol.”
“Rwy'n gadael gyda syniadau newydd rwyf am eu harchwilio yn fy ngwaith fy hun.”

Persbectif sy'n newid:

“Rwy'n meddwl am sut mae digwyddiadau byd-eang yn llunio ein polisïau a'n blaenoriaethau lleol.”

Datblygiad personol:

“Rwy'n teimlo mod i wedi fy ngrymuso i ddysgu mwy ac i feddwl am sut y galla i wella fy ymarfer a'm canfyddiadau.”

Gall y safbwyntiau newydd a chraff hyn ymestyn ymhellach, a gallant fod o fudd i'r ffordd y mae timau a systemau cyfan yn meddwl ac yn gweithio.

Cymryd rhan

Mae [gweithdai dinasyddiaeth fyd-eang](#) ar gael wyneb yn wyneb ac ar-lein, fel sesiynau hanner diwrnod neu sesiynau dysgu dros ginio anffurfiol, wedi'u teilwra ar gyfer timau ar draws GIG Cymru a thu hwnt.

Os hoffech chi gynnal sesiwn neu archwilio ffyrdd o gydweithio, cysylltwch â [laura.holt@wales.nhs.uk](#)



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Polisi, Ymchwil, Ymarfer

Ysgogi datrysiadau i wahaniaethau annheg mewn iechyd yng Nghymru a thu hwnt drwy Fenter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru

Zuwaira Hashim,

Cydlunydd Iechyd Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

James Allen,

Gwyddonydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Lauren Couzens,

Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Daniela Stewart,

Swyddog Datblygu Tystiolaeth Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Jo Peden,

Meddyg Ymgynghorol mewn Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae tegwch iechyd yn golygu bod gan bawb gyfle teg i fod mor iach â phosibl, waeth beth fo'u hamgylchiadau. Yng Nghymru, mae anghydraddoldebau iechyd yn parhau i fod yn her barhaus, wedi'u ysgogi gan wahaniaethau mewn ffactorau fel cyflogaeth, addysg, tai a chymorth cymdeithasol.

Datblygwyd [menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru](#) (WHESRI), a sefydlwyd yn 2020 gyda Sefydliad Iechyd y Byd, i ddeall yr

anghydraddoldebau hyn a'u hachosion yn well. Drwy ddarparu tystiolaeth gadarn ac offer ymarferol, mae'r fenter yn cefnogi gweithredu cydlynol ar draws sectorau, ac yn helpu i lywio polisi, blaenoriaethu buddsoddiad a gwella canlyniadau iechyd i gymunedau ledled Cymru.

Y WHESRI yw cymhwysiad cenedlaethol cyntaf Sefydliad Iechyd y Byd [Fframwaith Adroddiad Statws Tegwch Iechyd](#) ac fe'i hystyrir yn safle [arloesi byw ar gyfer tegwch](#)

[iechyd](#). Wedi'i gyflwyno drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ewrop, mae'r fenter yn dwyn ynghyd data, tystiolaeth a pholisi i gefnogi dull llywodraeth gyfan a chymdeithas gyfan o wella tegwch iechyd.

Mae'r rhaglen wedi creu adroddiadau allweddol, gan gynnwys dadansoddiad o [effeithiau uniongyrchol COVID-19 ar degwch iechyd](#) a [dadansoddiad dadelfennu](#). Mae'n tynnu sylw at yr angen

am atal a gweithredu ar draws y [Pum Amod Hanfodol](#) ar gyfer bywydau iach a llewyrchus i bawb. Yn debyg i'r model penderfynyddion ehangach iechyd lle mae ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn effeithio ar iechyd, mae'r Pum Cyflwr Hanfodol yn cynnwys: Iechyd a Gwasanaethau Iechyd; Iechyd a Diogelwch Incwm a Gwarchodaeth Gymdeithasol; Iechyd ac Amodau Byw; Iechyd a Chyfalaf Cymdeithasol a Dynol; ac Iechyd a Chyflogaeth ac Amodau Gwaith.

Gwneud gwahaniaeth: troi tystiolaeth fyd-eang yn weithredu lleol

Un o allbynnau canolog y fenter yw'r [platfform Datrysiaidau ar gyfer Tegwch Iechyd](#), porth ar-lein i dystiolaeth, adnoddau polisi, data ac offer ymarferol. Mae'n cynnwys cyfeiriaduron ymchwil, dangosfyrddau data, canllawiau polisi ac enghreifftiau o arferion arloesol. Mae'r platfform Datrysiaidau ar gyfer Tegwch Iechyd wedi ymestyn yr effaith hon drwy ddarparu offer a thystiolaeth hygyrch ac ymarferol, gyda dros 37,000 o ymweliadau ers ei lansio a thros hanner y defnyddwyr yn dychwelyd. Mae hyn yn dangos ymgysylltiad cryf a'i werth wrth gefnogi sefydliadau i drosi tystiolaeth yn weithredu a gwella canlyniadau.

Mae gan y fenter sawl ffrwd waith, un er enghraifft yw ar

gydraddoldeb rhywedd ac iechyd menywod i gefnogi rhoi Cynllun Iechyd Menywod ar waith. Hyd yn hyn mae gan WHESRI:

Cynnal deialog polisi lefel uchel yng Nghymru yn archwilio croestoriad tegwch rhywedd a'r economi llesiant, gan gynnwys rhanddeiliaid uwch a gweinidogion y llywodraeth o wledydd blaenllaw yn yr economi llesiant.

Cyhoeddi [blog nodwedd](#) sy'n tynnu sylw at gyfleoedd ymarferol ar gyfer newid Cyflwyno ddau weithdy peilot yn gysylltiedig â Chynllun Iechyd Menywod Llywodraeth Cymru

Cyfrannu at Gynhadledd Partneriaethau Iechyd Byd-eang drwy weithdy ar degwch rhywedd ac iechyd Cefnogi Menter Arbennig Sefydliad Iechyd y Byd i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd arbenigol, digwyddiad lansio ym Madrid a [chyhoeddi adroddiad](#)

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: solutionsplatform@wales.nhs.uk.



Ymchwil

Ymarfer ac ymchwil yng Nghymru yn darparu Cefnogaeth Ryngwladol i Rieni

Yr Athro Judy Hutchings,

Prifysgol Bangor

Ar ôl ymddeol yn 2010 o fy ngyrfa yn y maes ymchwil a gyda'r GIG yn gweithio gyda theuluoedd yng Nghymru i gefnogi rhieni a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg plant, dechreuais archwilio sut y gallai fy ngwaith yn y Deyrnas Unedig gyfrannu at ymdrechion i gefnogi teuluoedd yng ngwledydd deheuol y byd. Yn seiliedig ar fy ngwaith yng Nghymru, es ati gyda chydweithwyr yn Rhydychen i gyd-ddatblygu rhaglen i gefnogi rhieni wrth sefydlu ffyrdd cymdeithasol o ddelio ag ymddygiad heriol plant ac i atal/lleihau trais yn

erbyn plant [1-3]. Mae'r angen yn sylweddol fwy yng ngwledydd y De byd-eang lle mae cyfraddau trais yn erbyn plant yn sylweddol uwch nag mewn gwledydd mwy cyfoethog. Fodd bynnag, dengys yr ymchwil bod yr un sgiliau rhianta cadarnhaol sy'n fuddiol i bobl mewn gwledydd incwm uchel hefyd yn gweithio'n dda mewn gwledydd y De byd-eang [4, 5]. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn dod o raglenni mewn gwledydd incwm uchel, ac roedd llawer ohonynt yn ddrud ac yn cael eu rhedeg drwy drwydded. Gyda fy nghydweithiwr yn Rhydychen,

aethom ati i ysgrifennu rhaglen i rieni plant 2 i 9 oed sydd ar gael i bawb ar wefan Sefydliad Iechyd a Byd [6] ac sydd â thrwydded Creative Commons.

Fe wnaethom dreialu'r rhaglen Rhianta dros Iechyd Gydol Oes ar gyfer rhieni plant ifanc mewn trefgordd yn Ne Affrica, ac fe brofodd i fod yn llwyddiannus [7, 8]. Ar yr un pryd, aeth cydweithwyr eraill o fewn y grŵp ati i ddatblygu rhaglenni i rieni babanod a phlant ifanc ac i bobl ifanc yn eu harddegau [8,9]. Bûm yn parhau i weithio gyda'r rhaglen i rieni plant 2 i 9 oed a chyfrannu at dreialon

yn Ynysoedd Philippines [10], Gwlad Thai [11] ac ar draws Dwyrain Ewrop [12]. Derbyniodd y rhaglen gyllid Horizon 2020 er mwyn cynnal treial yng Ngogledd Macedonia, Romania a Moldofa. Mae'r treial wedi cynhyrchu rhywfaint o dystiolaeth ddefnyddiol, y mae peth ohoni wedi'i chyhoeddi a pheth ohoni'n cael ei hysgrifennu ar hyn o bryd [12]. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn Montenegro, a ariannwyd gan Gronfa Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Plant (UNICEF) at ddibenion addasu a hyfforddiant, wedi bod yn arbennig o ysbrydoledig ers i ni dderbyn trwydded i'r rhaglen gan wahanol weinidogaethau llywodraethol, yn ogystal â chefnogaeth i'w chyflwyno gan Lywodraeth Montenegro sydd wedi cydnabod y rhaglen yn ei strategaeth genedlaethol i atal a lleihau trais yn erbyn plant. Mae'r rhaglen bellach yn cael ei chyflwyno ledled Montenegro [13]. Mae addasiadau dilynol o'r rhaglen yn cefnogi poblogaeth Roma Montenegro ac yn targedu plant ifanc sydd â diagnosis o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD) a/neu oedi iaith, neu blant sy'n debygol o gael diagnosis o anhwylderau o'r fath. Gyda grant cydweithredu rhyngwladol y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol drwy Brifysgol Bangor, daethom â

phobl o Brifysgol Montenegro i Fangor a chynnal gwerthusiad cyn ac ôl y rhaglen wedi'i haddasu ar gyfer y boblogaeth Roma (papur wedi'i gyflwyno). Mae diddordeb yn y rhaglen hon ledled Dwyrain Ewrop, gan fod gan lawer o'r gwledydd hyn boblogaethau Roma sylweddol, ac rwy'n parhau i gefnogi'r ymdrechion hyn. Rydym wedi wynebu gostyngiad o 50% mewn cyllid i gynnal ymyrraeth gynnar yn y Deyrnas Unedig dros y 10 mlynedd diwethaf [14] ochr yn ochr â chynnydd ar ôl COVID yn nifer y disgyblion cyn-ysgol/blynyddoedd cynnar sy'n profi heriau sy'n golygu nad ydynt wedi cael eu paratoi'n effeithiol i ddechrau yn yr ysgol [15]. Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal treial bach o'r rhaglen gychwynnol yng Nghymru ac wedi cyhoeddi canlyniadau cadarnhaol cyn y rhaglen ac ar ei hôl [16]. Felly cyfrannodd gwaith yng Nghymru at gefnogaeth fyd-eang i rieni, ac mae'r canlyniadau wedi bwydo'n ôl i fuddion pellach i Gymru.

Cyfeiriadau

Ward, C. L., Mikton, C., Cluver, L., Cooper, P., Gardner, F., Hutchings, J., Lachman, J. M., Murray, L., Tomlinson, M., & Wessels, I. (2014). Parenting for lifelong Health: From South Africa to other low- and middle-income countries. UWE Research Repository (UWE Bristol). <http://eprints.uwe.ac.uk/30159/> Ward, C. L., Wessels, I. M., Lachman, J. M., Hutchings, J., Cluver, L., Kassanjee, R., Napi, R., Little, F. and Gardner, F. (2019) Parenting for Lifelong Health for young children: a randomized controlled trial of a parenting program in South Africa to prevent harsh parenting and child conduct problems. *Journal of Child Psychology and Psychiatry* <https://doi.org/10.1111/jcpp.13129> Wessels, I., Booij, A., Cluver, L., Cooper, P., Gardner, F., Hutchings, J., Jeffery, D., Lachman, J., Masuku-Mukadah, N., Murray, L., Tomlinson, M., & Ward, C. L. (2019). Implementing the Parenting for Lifelong Health programmes: Lessons learned from low-resource settings. In M.M.

Barry, A.M. Clarke, I. Petersen, & R. Jenkins. A (Eds.), *Implementing Mental Health Promotion* (Second Edition; pp. 278-284). New York: Springer. <https://www.springer.com/in/book/9783030234546> Gardner, F., Hutchings, J., Bywater, T., & Whitaker, C.J. (2010). Who Benefits and How Does It Work? Moderators and Mediators of Outcome in an Effectiveness Trial of a Parenting Intervention. *Journal of Clinical Child & Adolescent Psychology*, 39(4), 1-13. [doi:10.1080/15374416.2010.486315](https://doi.org/10.1080/15374416.2010.486315) Gardner, F., Leijten, P., Harris, V., Mann, J., Hutchings, J., Beecham, J., Bonin, E.M., Berry, V., McGiloway, S., Gaspar, M., Seabra-Santos, M.-J., Orobio de Castro, B., Menting, A., Williams, M., Axberg, U., Morch, W.-T., Scott, S., & Landau, S. (2019). Do parenting interventions increase social inequalities in child conduct problems? Pan-European Individual Participant Data (IPD) meta-analysis *The Lancet Psychiatry* [https://doi.org/10.1016/S2215-0366\(19\)30162-2](https://doi.org/10.1016/S2215-0366(19)30162-2) MDO Sefydliad Iechyd y Byd. (n.d.). Parenting for lifelong health. Sefydliad Iechyd y Byd. Cyrchwyd 13 Mai, 2026, o <https://www.who.int/teams/social-determinants-of-health/parenting-for-lifelong-health> Ward, C.L., Mikton, C., Cluver, L., Cooper, P., Gardner, F., Hutchings, J., Lachman, J.M., Murray, L., Tomlinson, M., & Wessels, I.M. (2014). Parenting for Lifelong Health: from South Africa to other low- and middle-income countries. *Early Childhood Matters*, 122, 49-53. Ward, C. L., Wessels, I. M., Lachman, J. M., Hutchings, J., Cluver, L., Kassanjee, R., Napi, R., Little, F. and Gardner, F. (2019) Parenting for Lifelong Health for young children: a randomized controlled trial of a parenting program in South Africa to prevent harsh parenting and child conduct problems. *Journal of Child Psychology and Psychiatry* <https://doi.org/10.1111/jcpp.13129> Cluver, L., Meinck, F., Steinert, J., Shenderovich, Y., Doubt, J., et al. (2018). Parenting for Lifelong Health: A pragmatic cluster randomised controlled trial of a non-commercialised parenting programme for adolescents and their families in South Africa. *BMJ Global Health*, 3 (1) e000539; DOI: 10.1136/bmjgh-2017-000539. Alampay, L.P., Lachman, J.M., Landoy, B.V., Madrid, B.J., Ward, C.L., Hutchings, J., Alinea, M.C.D., & Gardner, F. (2018). Preventing child maltreatment in low and middle-income countries: Parenting for lifelong health in the Philippines. Ch 15 pp 277-293 In S. Verma & A. Petersen (Eds.), *Sustainable Development Goals: Using Developmental Science to Improve Young Lives Globally*. Cham: Springer Mon, H. M., Pongpaew, W., Witvorapong, N., McCoy, A., & Hanvoravongchai, P. (2025). Costs and budget impact of Scaling Up Parenting for Lifelong Health for Young Children program in Thailand. *Child Care Health and Development*, 52(1), e70216. <https://doi.org/10.1111/cch.70216> Katzev, c., Baban, A., Babbi, V., Fang, X., Foran, H., Gajdzis-Knezhewik, S., Gardner, F., Heinrichs, N., Hutchings, J., & Ward, C. L. (2026) [Taking Parenting Programs to Scale: Lessons From Studying Parenting for Lifelong Health for Young Children in South-Eastern Europe](https://doi.org/10.1111/jcpp.13129). Families in Society wedi'i gyhoeddi ar-lein ar 28 Ionawr 2026 <https://doi.org/10.1111/jcpp.13129>



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru Wales Health Impact Assessment Support Unit

Polisi, Ymchwil, Ymarfer

Cymru ar flaen y gad o ran gwneud penderfyniadau iachach drwy Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEI)

Kathryn Ashton,

Liz Green,

Prif Swyddog Datblygu Asesu'r Effaith ar Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Liz Green, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd ym Mhob Polisi yn ddull sy'n cydnabod bod canlyniadau iechyd yn cael eu dylanwadu gan benderfyniadau a wneir ar draws llawer o sectorau, gan gynnwys tai, trafnidiaeth, addysg, cyflogaeth a'r amgylchedd. Mae'n hyrwyddo cydweithio rhwng llunwyr polisi i sicrhau bod iechyd a thegwch iechyd yn cael eu hystyried ym mhob maes o ran gwneud penderfyniadau. Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn broses sy'n cefnogi'r dull hwn drwy nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl polisiâu, rhaglenni, penderfyniadau neu brosiectau

ar iechyd, llesiant a thegwch drwy lens penderfynyddion ehangach iechyd. Gyda'i gilydd, maent yn helpu i atal anghydraddoldebau iechyd, gwella llesiant y boblogaeth, a sicrhau bod polisiâu cyhoeddus yn cyfrannu at gymunedau iachach. Mae [Uned Gymorth Asesu Effaith Iechyd Cymru \(UGAEIC\)](#) a sefydlwyd yn 2004 yn chwarae rhan ganolog wrth hyrwyddo arferion gorau mewn Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, nid yn unig ledled Cymru, ond hefyd yn rhyngwladol. Wedi'i leoli o fewn y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol yn

Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, mae UGAEIC yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr a rhanddeiliaid ledled Ewrop a thu hwnt i ddatblygu arfer AEI a hyrwyddo Cymru fel astudiaeth achos ar gyfer sefydliadoli AEI. Mae UGAEIC wedi cyfrannu at gynadleddau rhyngwladol, gan gynnwys Cynhadledd Iechyd y Cyhoedd Ewrop, Cynhadledd Cymdeithas Ryngwladol Asesu Effaith a'r Gynhadledd Ryngwladol ar Iechyd Trefol yn ddiweddar.

Mae aelodau UGAEIC hefyd wedi cyhoeddi mewn cyfnodolion rhyngwladol(1–5) ac wedi cael eu henwi'n glwstwr allweddol sy'n arwain cynnydd rhyngwladol ym maes AEI(6).

Ystyrir Cymru yn arweinydd byd-eang ym maes ymarfer AEI ac mae'n rhannu ymarfer yn rheolaidd â Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd cenedlaethol eraill a sefydliadau academiaidd er enghraifft, Cork, Iwerddon a Wageningen yn yr Iseldiroedd, fel y gallant ddysgu gennym ni. Mae UGAEIC wedi datblygu canllawiau, hyfforddiant a rhaglenni meithrin capasiti ac wedi cynnal AEIau fel yr AEI newid hinsawdd y gall gwledydd eraill eu haddasu. Mae Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025 yn ddeddfwriaeth ddiweddar a basiwyd yng Nghymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal AEIau wrth wneud penderfyniadau o natur strategol. Mae hyn wedi cryfhau safle Cymru ymhellach fel arweinydd byd-eang yn y maes hwn, gan greu cyfleoedd ar gyfer dysgu a chydweithio rhyngwladol.

Mae gwaith UGAEIC wedi helpu i godi ymwybyddiaeth yn rhyngwladol am bwysigrwydd ystyried iechyd a llesiant ar draws sectorau polisi. Mae gwaith UGAEIC wedi cryfhau partneriaethau rhwng Cymru a sefydliadau rhyngwladol, gan gefnogi gwledydd eraill i ddatblygu eu harferion AEI. Er enghraifft, yr Alban, Iwerddon,

India, Seland Newydd ac Awstralia. Mae rhannu arbenigedd Cymru wedi dangos sut y gall gwledydd llai fel Cymru ddylanwadu ar ymarfer iechyd y cyhoedd byd-eang trwy gydweithio, ymchwil a dysgu ar y cyd.

Cyfeiriadau

Green L, Ashton K, Williams J, Douglas M. Institutionalisation of health impact assessment. A systematic scoping review and development of a descriptive conceptual framework. *Impact Assess Proj Apprais*. 2026 Apr 16;0(0):1–16. doi:10.1080/14615517.2026.2658912

Green L, Ashton K, Azam S, Clemens T, Bellis M. Brexit, COVID-19 and climate change: mapping the impact of the 'triple challenge' on health and well-being in Wales. *Impact Assess Proj Apprais*. 2023 Mar 4;41(2):126–38. doi:10.1080/14615517.2022.2154434


Green L. Measuring health impact - a case study of Wales. In: *Climate Change and Public Health: Governance and Challenges*. Manipal University Press, India; 2023.

Ashton K, Cotter-Roberts A, Dyakova M, Green L. Integration of Social Return on Investment with Health Impact Assessment and evaluation frameworks. *Eur J Public Health*. 2023 Oct

1;33(Supplement_2):ckad160.1285. doi:10.1093/eurpub/ckad160.1285

Ashton K, Gray B, Lines R, Harman D, Green L. Safer inhalation devices: a rapid Health Impact Assessment of a harm reduction pilot for people who smoke crack cocaine. *Harm Reduct J*. 2026 Jan 13;23(1):34. doi:10.1186/s12954-025-01383-w PubMed PMID: 41530850; PubMed Central PMCID: PMC12903636.

Kim J, Haigh FA. HIA and EIA Are Different, but Maybe Not in the Way We Thought They Were: A Bibliometric Analysis. *Int J Environ Res Public Health*. 2021 Jan;18(17):9101. doi:10.3390/ijerph18179101



Ymarfer

Pan Mae Llysiau yn Cwrdd â Feirysau: Rôl Artistiaid mewn Cyfathrebu Iechyd Byd-eang

MHD MALEK AL DALI,

Graddedig MSc Iechyd y Cyhoedd –
Prifysgol Bangor

Mae diweddariadau iechyd cyhoeddus yn ystod argyfyngau yn aml yn cael eu boddi mewn ystadegau oer a rheolau llym. Er eu bod yn bwysig, gall y dull trwm hwn o ddefnyddio data arwain yn hawdd at flinder gwybodaeth. Mae hefyd yn ei chael hi'n anodd croesi rhwystrau iaith a diwylliannol mewn cyfathrebu iechyd byd-eang. Wrth ei graidd, mae ymgysylltu ag iechyd yn dibynnu ar gysylltiad dynol, emosiwn ac ymddiriedaeth. Yn hanesyddol, mae celf ac adrodd straeon wedi bod yn

rhai o'r ffyrdd cyffredinol mwyaf effeithiol i symleiddio syniadau cymhleth. Pan fydd argyfwng yn digwydd, mae cyfryngau creadigol yn dod yn fwy nag addurn—mae'n dod yn ffordd ddynol o adeiladu empathi, lleihau pryder y cyhoedd, a helpu negeseuon iechyd pwysig i gyrraedd ac aros gyda gwahanol gymunedau. Mae tystiolaeth gynyddol, gan gynnwys adroddiadau gan Sefydliad Iechyd y Byd (1), yn dangos y gall ymgysylltu creadigol ac artistig gefnogi llesiant y cyhoedd a chryfhau

negeseuon iechyd. Mae adrodd straeon gweledol yn helpu i osgoi rhwystrau llythrennedd ac iaith, ac mae'n aml yn creu cysylltiadau emosiynol y mae pobl yn eu cofio mwy nag ystadegau yn unig. Defnyddiais y syniad hwn yn ystod cyfnod cloi COVID-19 yn 2020. Sylwais fod llawer o bobl yn mynd yn llethol ac yn flinedig o rybuddion diogelwch ailadroddus a negeseuon wedi'u seilio ar ofn. I ymateb i hyn, creais ffilm ymwybyddiaeth stop-motion fer, annibynnol gan ddefnyddio cymeriadau llysiau

syml wedi'u gwneud â llaw, hiwmor ysgafn, ac actio llais cynnes i gyflwyno'r neges "aros gartref". Yn lle ailadrodd cyfarwyddiadau sefydliadol ffurfiol, ceisiais ddefnyddio arddull adrodd straeon mwy dynol a chyfarwydd i wneud y canllawiau'n haws uniaethu â nhw ac yn llai brawychus. Roedd y dull hwn yn adlewyrchu meddylfryd hyrwyddo iechyd modern sy'n annog cyfathrebu hyblyg a diwylliannol sensitif yn hytrach na negeseuon awdurdodol pur.

O fy mhrofiad, dangosodd y prosiect creadigol bach hwn i mi y gall hyd yn oed adrodd straeon digidol syml weithredu fel pont rhwng canllawiau meddygol cymhleth a dealltwriaeth bob dydd. Fe wnaeth hefyd i mi sylweddoli pa mor bwysig yw tîm wrth gyfathrebu cyngor iechyd yn ystod amseroedd dros dro, yn enwedig pan fydd pobl eisoes yn bryderus neu wedi'u gorlwytho â gwybodaeth. Ar ôl iddi gael ei rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol, cafodd fy ffilm fer stop-motion dros 200,000 o wylwriaethau o fewn pythefnos. Fodd bynnag, y peth oedd yn bwysicach i mi oedd sut ymatebodd pobl. Bu llawer o wylwyr o wahanol gefndiroedd yn cysylltu'n emosiynol â'r cymeriadau a'r neges. Fe wnaethant rannu'r fideo mewn grwpiau teuluol a thrafod y cyngor iechyd mewn ffordd fwy cadarnhaol a hamddenol. Roedd i weld yn lleihau peth o'r pryder

ynghylch negeseuon pandemig wrth barhau i atgyfnerthu ymddygiad diogel. Ar y cyfan, dangosodd y prosiect i mi y gall cyfathrebu creadigol wneud i negeseuon iechyd cyhoeddus deimlo'n fwy dynol, yn llai pell, ac yn haws eu derbyn.

Fy mhrif wers yw nad rhywbeth ychwanegol yn unig yw cyfathrebu creadigol, ond rhywbeth sy'n wirioneddol angenrheidiol. Mewn byd lle mae sylw yn gyfyngedig ac ymddiriedaeth yn fregus, mae angen i iechyd cyhoeddus weithio'n agosach ag artistiaid ac adroddwyr straeon. Ni gall cyfathrebu iechyd ddibynnu ar ddata a gwybodaeth ysgrifenedig yn unig. Fy ngalwad i weithredu yw i sefydliadau iechyd cyhoeddus gynnwys gweithwyr creadigol proffesiynol fel rhan o'u cynllunio ymgyrchoedd o'r cychwyn cyntaf. Trwy gyfuno gwybodaeth wyddonol ag adrodd straeon, gallwn greu negeseuon sy'n gliriach, yn fwy cynhwysol, ac yn fwy ystyrlon yn emosiynol, gan helpu pobl i gysylltu â chyngor iechyd a gweithredu arno.

Cyfeiriadau:

World Health Organization (2023). *Arts and health*. [online] [www.who.int](https://www.who.int/initiatives/arts-and-health). Available at: <https://www.who.int/initiatives/arts-and-health>

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y
Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a
Llesiant

Policy and International Health

World Health Organization
Collaborating Centre on Investment for Health and
Well-being

Policy | Practice

Mewnwelediadau Iechyd Rhyngwladol: Dysgu o Arfer Byd-eang i Gryfhau Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru

Zuwaira Hashim,

Cydlunydd Iechyd Rhyngwladol, Iechyd
Cyhoeddus Cymru

Keira Charteris,

Uwch Swyddog Datblygu Tystiolaeth
Ryngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Daniela Stewart,

Swyddog Datblygu Tystiolaeth
Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mariana Dyakova,

Pennaeth Arweinydd Economi Iechyd a
Llesiant Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus
Cymru

Mae'r rhaglen
Mewnwelediadau
Iechyd Rhyngwladol yng
Nghyfarwyddiaeth Polisi ac
Iechyd Rhyngwladol Iechyd
Cyhoeddus Cymru yn dwyn
ynghyd dystiolaeth iechyd
y cyhoedd byd-eang ac yn
ei chymhwyso i gyd-destun
Cymru trwy astudiaethau
achos a dadansoddiadau
wedi'u targedu o wledydd
eraill. Mewn byd sy'n gynyddol

gydgysylltiedig, mae'r gwaith
hwn yn helpu i nodi risgiau
sy'n dod i'r amlwg, yn tynnu
sylw at ymyriadau effeithiol,
ac yn cefnogi gwneud
penderfyniadau amserol.

Wedi'i sefydlu'n wreiddiol
yn ystod COVID-19, mae'r
rhaglen wedi esblygu dros y
chwe blynedd diwethaf i fod
yn swyddogaeth wybodaeth
graidd sy'n cefnogi gwaith atal,
lleihau anghydraddoldebau

a chryfhau gwydnwch y
system. Mae'n cyd-fynd â
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol (Cymru) drwy
gyfrannu at Gymru iachach,
fwy cyfartal a chyfrifol yn fyd-
eang.

Ehangu o COVID-19 i flaenoriaethau iechyd y cyhoedd ehangach

Dechreuodd y ffrwd waith yn
ystod pandemig COVID-19,

gan ddarparu gwybodaeth ryngwladol gyflym ar fesurau iechyd y cyhoedd, strategaethau adfer, ac effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Er 2020, mae'r gwaith wedi ehangu y tu hwnt i COVID-19, gyda 52 o adroddiadau'n ymdrin â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd allweddol yn cynnwys gwella iechyd, diogelu iechyd a gwasanaethau iechyd y cyhoedd gofal iechyd. Mae pynciau'r adroddiadau wedi cynnwys atal dementia, gofal brys, mesurau ariannol i fynd i'r afael â gordewdra, yr argyfwng costau byw, prydau ysgol am ddim, tlodi plant, penderfynyddion iechyd masnachol, gofal sylfaenol, gofal canolraddol a chyfathrebu ynghylch brechlynnau. Mae pob adroddiad yn cyfuno ymchwil fyd-eang, dadansoddi polisi ac astudiaethau achos ymarferol, gyda goblygiadau clir i Gymru. Rhennir canfyddiadau ar draws sectorau i gefnogi eu defnydd mewn cynllunio polisïau a gwasanaethau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod dysgu rhyngwladol yn ymarferol, yn berthnasol ac yn weithredadwy yng Nghymru.

Dylanwadu ar bolisi ac arfer yng Nghymru

Dros y chwe blynedd diwethaf, mae'r adroddiadau wedi helpu i lywio polisi ac arfer yng Nghymru.


Yn ystod COVID-19, lluniodd adroddiadau cynnar ddealltwriaeth Llywodraeth

Cymru o werthoedd R a'r paradocs atal, gan lywio adrodd cenedlaethol a briffiau gweinidogol. Yn fwy diweddar, mae mewnwelediadau wedi cefnogi datblygiad strategaeth gofal brys a gofal mewn argyfwng, Un Pwynt Mynediad, Strategaeth Dementia Cymru, a thrafodaethau ym Mhwyllgor Cyngori ar Fwyd Llywodraeth Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r enghreifftiau hyn yn dangos gwerth defnyddio tystiolaeth ryngwladol i gryfhau polisi ac arfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Ni ddylai tystiolaeth ryngwladol fod yn rhywbeth ychwanegol, yn hytrach, dylai fod yn rhan arferol o wybodaeth iechyd y cyhoedd. Mae llunwyr polisi ac ymarferwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'r mewnwelediadau hyn i lywio strategaethau, gwasanaethau ac ymyriadau, gan helpu Cymru i ymateb yn effeithiol i heriau presennol a heriau'r dyfodol.

Cysylltu â ni

Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd yn gofyn am ddysgu ar y cyd, ymdrech barhaus a chydweithio. I roi adborth ar adroddiadau blaenorol, awgrymu pynciau ar gyfer y dyfodol neu gydweithio ar adroddiadau Mewnwelediadau Iechyd Rhyngwladol sydd ar ddod, cysylltwch â: Mariana.Dyakova@wales.nhs.uk.



Polisi | Ymarfer

Iechyd y Cyhoedd fel Gyrrwr Economiâu Llesiant yng Nghymru ac yn Fyd-eang

Mariana Dyakova,

Pennaeth Arweinydd Economi Iechyd a Llesiant Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Anna Stielke,

Uwch Swyddog Tystiolaeth a Pholisi, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cefndir

Mae Cymru, a gwledydd eraill fel ei gilydd, yn wynebu llu o bwysau demograffig, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd a llesiant y boblogaeth, a gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig y cymunedau a'r ardaloedd sydd wedi'u gadael ar ôl. Mae mudiad 'Economi Llesiant' byd-eang sy'n tyfu yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau hyn drwy osod llesiant dynol, cymdeithasol a'r blaned yn ffocysau canolog ar gyfer datblygiad economaidd.

Cymru'n arwain y ffordd

O safbwynt iechyd, mae'r Economi Llesiant yn ffordd i ysgogi blaenoriaethu gwaith atal a symud cyllidebau a buddsoddiad i fyny'r gadwyn er mwyn cefnogi bywydau iach a llewyrchus i bawb, heb adael yr un unigolyn ar ôl. Mae Cymru wedi cael ei chydabod fel hyrwyddwr byd-eang am adeiladu economi llesiant drwy fabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Iechyd y Cyhoedd fel sbardun a buddiolwr

Mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHOCC) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn hyrwyddo'r agenda hon. Rydym wedi galluogi a chyflawni Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ewrop, gan ganolbwyntio ar greu economïau llesiant y mae iechyd a thegwch yn ganolog iddynt.

Safle Arloesi Byw ar gyfer gweithredu Economi Llesiant

Mae WHOCC wedi sefydlu gwasanaeth Economeg Llesiant a Gwerth unigryw, gan ddarparu tystiolaeth ac arbenigedd, ac adeiladu capasiti a gallu, i lywio polisïau a buddsoddiadau sy'n seiliedig ar Werth ac sy'n canolbwyntio ar waith atal yng Nghymru a thu hwnt. Mae'n cefnogi ymchwil, gweithredu a gwerthuso rhaglenni iechyd y cyhoedd allweddol ar draws disgyblaethau a sectorau, megis gwerth cymdeithasol imiwneiddio a dulliau sy'n ystyriol o drawma; costau ysmegu, ac anghydraddoldebau iechyd; a modelu gwariant ar waith atal.

Rydym yn gweithio'n agos gyda swyddfeydd, rhanbarthau a rhwydweithiau'r WHO, fel y Swyddfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Datblygiad yn Fenis, yr Eidal; y Sefydliad Iechyd Pan Americanaid (PAHO), y Rhanbarthau dros Iechyd a'r rhwydweithiau Dinasoedd Iach. Mae gwaith WHOCC yn y maes hwn wedi cydnabod bod Cymru yn safle o

arloesi byw - mae'n symud ac yn datblygu deallusrwydd, gwybodaeth, offer newydd a dulliau ymarferol, i lywio a datblygu economïau llesiant ledled Ewrop a'r byd.

Llywio meysydd Iechyd, yr Economi a Chyllid tuag at sicrhau llesiant i bawb

Ynghyd ag WHO a phartneriaid eraill ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, mae WHOCC wedi dod ag arweinwyr a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ym meysydd iechyd, yr economi a chyllid ynghyd i alinio nodau, cytuno ar flaenoriaethau, dysgu o arferion gorau, nodi datrysiadau ac archwilio mecanweithiau ariannu newydd a allai ddiogelu a gwella iechyd y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau, adeiladu cymunedau gwydn, a gwella ymddiriedaeth, cydlyniant a ffyniant cymdeithasol.


Meddwl yn fyd-eang, gweithredu'n lleol

Mae WHOCC wedi bod yn cefnogi datblygiad Economi Iechyd Rhanbarthol De-orllewin Cymru, gan gydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae hyn yn troi dulliau gweithredu byd-eang, Ewropeaidd a chenedlaethol, fel penderfyniadau Sefydliad Iechyd y Byd, strategaethau a deddfwriaeth Cymru, ar lefel leol – i gryfhau rôl y GIG fel angor lleol; ymgysylltu â busnesau lleol, y byd academiaidd ac elusennau mewn ffordd gynaliadwy sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, a chreu cymunedau iachach, tecach a mwy gwydn.

Darllen pellach ac adnoddau:

[Menter Economi Llesiant Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd Ymrwymiad Cymru i ddod yn economi llesiant](#)
[Datgloi cyllid ar gyfer iechyd a llesiant yn Rhanbarth Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd Buddsoddi mewn gwaith atal ar frig yr agenda ar gyfer deialog polisi yng Nghymru](#)
[Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant Buddsoddiad Cynaliadwy ar gyfer Iechyd a Llesiant E-Ganllaw Gwerth Cymdeithasol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd Cynghrair Economi Llesiant](#)

Trwy glep a si



Beth sy'n Gwneud i Gydweithio Weithio? Mewnwelediadau ac Offer ar gyfer Partneriaethau Effeithiol

Emma Girvan,

Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Uned
Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Iechyd
Cyhoeddus Cymru

Rebecca Evans,

Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Uned
Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Iechyd
Cyhoeddus Cymru

Mae'r adroddiad Cysylltiad Gwell, Canlyniadau Gwell yn archwilio sut y gall sefydliadau gydweithio'n fwy effeithiol i wella canlyniadau i bobl a chymunedau. Er ei fod wedi'i seilio ar asesiad o anghenion ar dlodi plant yng Nghymru, mae'r dysgu ohono'n berthnasol i bob sector neu bartneriaeth. Mae llawer o wasanaethau'n gweithredu mewn systemau cymhleth lle mae'n rhaid i unigolion lywio sawl sefydliad nad ydynt bob amser yn teimlo'n gysylltiedig. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddeall yr hyn sy'n sicrhau bod cydweithio'n gweithio'n dda — a'r hyn sy'n ei rwystro. Mae'n tynnu sylw at y ffaith nad yw cydweithio effeithiol yn rhywbeth ychwanegol, ond yn hytrach yn rhan greiddiol o ddarparu gwasanaethau gwell a mwy cydgysylltiedig ar draws sectorau.

Nod y gwaith hwn, a arweinir gan Grŵp Cydlynio Adeiladu Cymru Iachach, oedd deall yr hyn sy'n cefnogi cydweithio effeithiol ar draws sefydliadau a sectorau. Nododd adolygiad o dros 150 o bapurau ymchwil nodweddion allweddol cydweithio llwyddiannus, yn cynnwys ymddiriedaeth, nodau cyffredin, arweinyddiaeth gref,

llywodraethu clir, adnoddau digonol, cynnwys dinasyddion a rhannu gwybodaeth yn effeithiol.

Defnyddiwyd y nodweddion hyn i ddylunio arolwg a dull cyfweld, i gasglu mewnwelediadau gan weithwyr proffesiynol ar draws gwahanol sectorau. Myfyriodd y cyfranogwyr ar eu profiadau go iawn o gydweithio trwy ddefnyddio fframwaith hunanasesu strwythuredig. Mae'r canfyddiadau'n dangos, er bod ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth, fod cydweithio'n aml yn cael ei lunio gan amodau system yn hytrach nag ymdrech unigol. Mae arfer cadarnhaol wedi'i adeiladu ar berthnasoesedd, cyfathrebu agored a phwrpas cyffredin. Fodd bynnag, gall cyllid tymor byr, blaenoriaethau sy'n newid, rolau aneglur, a rhannu data cyfyngedig danseilio cydweithio. Mae cynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd hefyd yn anghyson.

Yn bwysig, mae'r gwaith hwn yn fframio cydweithio fel rhywbeth y mae'n rhaid ei gynllunio a'i gefnogi'n weithredol. Mae'n darparu offer ymarferol, yn cynnwys fframwaith hunanasesu ac

argymhellion clir, i helpu sefydliadau i fyfyrion ar y ffordd maen nhw'n cydweithio a'i chryfhau — beth bynnag fo'r maes polisi neu'r sector.

Mae'r gwaith hwn wedi trosti tystiolaeth ar gydweithio yn offer ymarferol a defnyddiadwy ar gyfer sefydliadau a phartneriaethau. Mae'n rhoi iaith a fframwaith a rennir i dimau i asesu pa mor dda maen nhw'n cydweithio a lle mae angen gwelliannau. Drwy ganolbwyntio ar alluogwyr system gyfan — megis arweinyddiaeth, sefydlogrwydd cyllid a rhannu data — mae'n helpu i symud y sgwrs o gyfrifoldeb unigol i amodau ar y cyd ar gyfer llwyddiant. Mae'r gwaith hefyd wedi cysylltu partneriaid ar draws sectorau, ac annog dysgu a myfyrion ar y cyd. O ganlyniad, mae sefydliadau mewn gwell sefyllfa i gryfhau cydweithio yn eu cyd-destunau eu hunain a rhoi'r egwyddorion hyn ar waith i fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o heriau.

Nid yw cydweithio effeithiol yn digwydd ar hap — mae angen yr amodau cywir arno. Mae perthnasoesedd cryf, nodau cyffredin ac arweinyddiaeth glir yn hanfodol, ond felly hefyd alluogwyr ymarferol fel


cyllid sefydlog, rhannu data da a chyfranogiad ystyrion pobl yr effeithir arnynt gan benderfyniadau.

Does dim angen i chi ddechrau o'r dechrau. Dechreuwch drwy ofyn: pa mor dda ydym ni'n cydweithio go iawn? Defnyddiwch offer myfyrio strwythuredig i nodi cryfderau a bylchau. Rhannwch yr hyn sy'n gweithio, dysgwch gan eraill, a hyrwyddwch gydweithio fel busnes craidd. Mae'r alwad i weithredu yn syml, lle bynnag rydych chi'n gweithio a beth bynnag rydych chi'n gweithio arno, blaenoriaethwch gydweithio, buddsoddwch ynddo, a helpwch i lunio cydnabyddiaeth genedlaethol bod cydweithio yn waith go iawn.

Mae dolen i'r offer ar gael ar wefan Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru: <https://rhwydwaithiechydcyhoeddus.cymru/cysylltiadau-gwell/>

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch neges i: ICC.Penderfynyddion@wales.nhs.uk

Fideos



BARS

EVF DTL

ZEBRA

LCD

WFM

COUNTER-RESET/TC SE

FUNCTION SHTR/F



Fforwm Iechyd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r Fforwm Iechyd Rhyngwladol yn hyrwyddo profiadau cydweithwyr ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o gymryd rhan mewn gweithgareddau ac ymchwil iechyd rhyngwladol ac yn rhoi amser i drafod cyfleoedd ar gyfer y dyfodol i ymgysylltu â gwaith a rhwydweithiau partneriaethau rhyngwladol.

Gwyllo



**Adeiladu Cymru
Iachach
Building a Healthier
Wales**

Beth sy'n Gwneud i Gydwethio Weithio? Mewnwelediadau ac Offer ar gyfer Partneriaethau Effeithiol

Rhannodd y weminar hwn enghreifftiau o arfer cydweithredol cryf sydd eisoes yn digwydd ledled Cymru, yn ogystal â'r camau gweithredu – yn enwedig ar lefel genedlaethol – a allai helpu i gryfhau a chynnal gweithio mewn partneriaeth leol a rhanbarthol yn y dyfodol.

Gwyllo



Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi Adnoddau Iechyd Newydd i Rieni – i gefnogi Teuluoedd ledled Cymru

Tynnodd y weminar hon yn dangos bod ymgorffori'r adnoddau hyn yn eich rhaglenni a'ch gwasanaethau a'u cynnig i deuluoedd yn eich helpu i greu cynnig cyson a dibynadwy i rieni ledled Cymru

Gwyllo

Archwiliwch ein llyfrgell
fideo ar-lein

**Gweld ein
holl fideos**

Newyddion & Adnoddau





[Mae data newydd yn dangos y gyfran uchaf erioed o blant oedran Derbyn sydd dros bwysau neu'n ordew yng Nghymru](#)

12-05-2026



[Disgwyliad oes iach yn gostwng yn y DU](#)

05-05-2026



[Rheolau newydd yn gwneud dewisiadau iachach yn haws](#)

02-04-2026

**Pob
Newyddion**

Better Join Up, Better Outcomes for Child Poverty

Building A Healthier Wales

Loneliness, social isolation and social connection in Wales: A public health perspective

Public Health Wales

Pob Adnoddau

Rhifyn Nesaf

LLESIANT ARIANNOL YNG NGHYMRU



Mae llesiant ariannol yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio iechyd a llesiant.

Gan adeiladu ar themâu ein gweminar - Llesiant Ariannol yng Nghymru – Ysgogwr ar gyfer Iechyd Gwell, rydym yn gwahodd cydweithwyr ar draws pob sector i gyfrannu at fwletin thematig sydd ar dod ar y pwnc hwn. Hoffem wahodd aelodau i rannu unrhyw ddulliau, offer neu adnoddau ymarferol sy'n cefnogi llesiant ariannol. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau o brosiectau arloesol, cydweithio, neu fentrau sy'n digwydd ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu leol.

Rydym yn awyddus i ddysgu o'ch profiadau a'u harddangos yn ein e-fwletin i gefnogi rhannu dysgu a chryfhau ymdrechion i wella llesiant ariannol ledled Cymru.

Bydd ein [ffurflen cyflwyno erthygl](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am nifer y geiriau, cynllun eich erthygl ac arweiniad o ran delweddau.

Anfonwch erthyglau i publichealth.network@wales.nhs.uk erbyn 18 Mehefin 2026.

Contribute